## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 08-08)

**Dyddiad y cyfarfod:** **15 Ebrill 2008**
**Amser y cyfarfod:** **8.15am**
**Lleoliad y cyfarfod:** **Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

## CYNNWYS

---

Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod ar 15 Ebrill 2008: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC ac Alun Davies AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Irene James AC. Roedd Sandy Mewies yn dirprwyo ar ran Irene James AC.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol).**

**SLC131 - Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

**SLC132 - Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 6 Mawrth 2008. Fei gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

**SLC134 - Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

**SLC138 - Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 11 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC128 - Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 6 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

**SLC129 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 6 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

**SLC133 - Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 6 Mawrth 2008. Fe'i gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

**SLC135 – Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Ceir Adroddiadau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiadau 1-4 i'r Adroddiad hwn.

Bu'r pwyllgor yn ystyried Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008 a phenderfynodd ystyried darpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig hwn ymhellach. Cytunwyd gwahodd Jenny Randerson AC a Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi rhagor o wybodaeth a sylwadau ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig. Yna, caiff argymhellion y pwyllgor eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyfnod 1 ar y Mesur arfaethedig.

Nododd y pwyllgor y Mesur arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru). Dywedodd y Cadeirydd wrth y pwyllgor y bydd y Cynghorwyr Cyfreithiol yn paratoi papur ar y Mesur arfaethedig ar gyfer y cyfarfod yr wythnos nesaf i'w cynorthwyo i benderfynu a ydynt am graffu ar y Mesur.

Cytunodd y pwyllgor i gyfarfod am 8.45am os yn trafod busnes arfeol.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**15 Ebrill 2008**

# Atodiad 1
# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3) 08-08)

**SLC128**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

## O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

**Teitl: Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2008**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cig (Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2007, ac yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi mewn perthynas â Chymru Erthyglau 26 a 27 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau bod cydymffurfedd â'r gyfraith ynglŷn â bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid.

**Gweithdrefn: Negyddol**

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar sail yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vii) (anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg):

- Yn y tabl sy'n ymddangos ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau, cyfeirir yn y fersiwn Saesneg at 'Bovine animals aged less than 8 months at slaughter, and animals aged 8 months or more at slaughter'.

- Fodd bynnag, yn y fersiwn Gymraeg mae'r un cyfeiriadau yn cael eu cyfleu mewn wythnosau ac nid misoedd.

- Felly mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau yn anghyson [Rheol Sefydlog 15.2(vii)].

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ac mae'n bwriadu gwneud Rheoliadau Diwygio cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach na 31 Mai 2008.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**15 Ebrill 2008**

# Atodiad 2

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3) 08-08)

**SLC129**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**

## Teitl: Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006 er mwyn codi'r ffi sy'n daladwy gan ymgymerwyr am arolygiadau o'u gwaith gan awdurdodau stryd yng Nghymru o dan reoliad 3 o'r Rheoliadau hynny. Y ffi a ragnodwyd yn wreiddiol yn Rheoliadau 2006 oedd £21. Newidwyd y ffi ddiwethaf ym Mehefin 2007, i £24 ac yn awr fe'i codir i £25.

**Rheol Sefydlog 15.2**

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Yn rheoliad 3, mae cyfnewidiad o £25.00 yn cael ei wneud am y £21.00. Fodd bynnag, fel y nodir yn y Nodyn Esboniadol, mae cyfnewidiad o £24.00 eisoes wedi'i wneud am y £21.00 gwreiddiol. Y cyfnewidiad cyfredol ddylai fod £25.00 am £24.00 felly. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ac mae'n bwriadu dirymu ac ail-wneud y Rheoliadau cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach na 30 Ebrill 2008.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**15 Ebrill 2008**

# Atodiad 3

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
## (SLC (3) 08-08)

**SLC133**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/614 (Cy.66)). Mae Rheoliad 5(a) o'r Rheoliadau hynny yn gwahardd, yn unol ag adran 72(4)(a) o Ddeddf 2004, gosod ffi gosb am dramgwydd parcio ac eithrio ar sail cofnod a gynhyrchir gan ddyfais a gymeradwyir neu wybodaeth a roddir gan swyddog gorfodi sifil parthed ymddygiad a welwyd ganddo ef. Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu disgrifiad o ddyfais sydd yn ddyfais a gymeradwyir at y diben hwn. Yn unol ag erthygl 2, mae dyfais yn ddyfais a gymeradwyir os yw o fath sydd wedi ei hardystio gan Weinidogion Cymru fel un sydd yn bodloni'r gofynion a bennir yn yr Atodlen.

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Ym mharagraff 1(1)(b) o'r Atodlen, mae'r testun Cymraeg yn cynnwys yr ymadrodd "sydd o ran y defnydd a wneir ohonynt yn cyflawni tramgwyddau parcio" [*which are, in respect of the use being made of them, committing parking* offences]. Nid oes cyfeiriad cyfatebol at y defnydd o'r cerbyd yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Ym mharagraff 1(1)(d) o'r Atodlen, mae'r testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd "in relation to which a parking contravention was committed", ac nid oes ymadrodd yn cyfateb iddo yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ac mae'n bwriadu dirymu ac ail-wneud y Gorchymyn cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach na 30 Ebrill 2008.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**15 Ebrill 2008**

# Atodiad 4

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-08-08)

**SLC135**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.**

## Teitl: Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio yng Nghymru yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae Rhan 6 o Ddeddf 2004 a Rheoliadau a wneir oddi tani yn disodli darpariaethau Rhan II ac Atodlen 3 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991.

**Gweithdrefn: negyddol**

Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Yn rheoliad 2(4)(b), mae'r testun Cymraeg yn cynnwys yr ymadrodd "hysbysiad rheoliad 11" [*regulation 11 notice* ] heb eglurhad pellach. Mae rheoliad 11 yn ymdrin â gwargedau yn hytrach na hysbysiadau. Mae'r testun Saesneg yn nodi'n glir y dylid cyfeirio at reoliad 11 o'r Rheoliadau Gorfodi a Dyfarnu. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Yn rheoliad 7(2)(c) mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at symud dyfais yn anghyfreithlon. Yn y testun Cymraeg, nodir bod y gair "unlawful" yn absennol ac mae erbyn hyn yn darllen "(c) sy'n rhybuddio bod symud dyfais sy'n (this should say unlawful removal) rhwystro cerbyd rhag symud yn dramgwydd" ond ni chywirwyd y ddogfen. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ac mae'n bwriadu dirymu ac ail-wneud y Rheoliadau cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach na 30 Ebrill 2008.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**15 Ebrill 2008**